

STELCIO A PHOBL IFANC

**GWYBODAETH I WEITHWYR
PROFFESIYNOL**

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru



SOUTH WALES
POLICE
HEDDLU
DE CYMRU

CYFLWYNIAD

Crëwyd y canllawiau hyn fel rhan o'r prosiect *Stelcio a Phobl Ifanc yng Nghymru: Archwilio a Chynyddu Gwybodaeth, Ymwybyddiaeth a Dealltwriaeth* (a ariannwyd gan Gronfa Prosiectau Bach Consortiwm VISION o fis Medi 2024 tan fis Medi 2025).

Yn gydweithrediad rhwng Prifysgol De Cymru, Calan DVS a Heddlu De Cymru, ymchwiliodd y prosiect i ddealltwriaeth o stelcio a safbwyntiau ar addysg stelcio ymhlith pobl ifanc ledled Cymru rhwng 16 a 24 oed.

Roedd allbynnau'r prosiect yn cynnwys canfyddiadau o'r astudiaeth, fideos a gynhyrchwyd ar y cyd â phobl ifanc, a'r canllawiau hyn. Gallwch ddod o hyd i ddolenni i'n hadnoddau ac eraill yng nghefn y llyfryn.

Bwriad y canllaw hwn yw hysbysu a chefnogi gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phobl ifanc mewn amrywiaeth o amgylcheddau i ddeall yn well beth yw stelcio.

Am ragor o wybodaeth am y prosiect, neu os oes gennych unrhyw gwestiynau, gallwch gysylltu â:

Dr Sarah Wallace

sarah.wallace@southwales.ac.uk

Dr Sophia Kier-Byfield

sophia.kier-byfield@southwales.ac.uk

ARIANNWYD GAN:



NEGESEUON ALLWEDDOL



Yng Nghymru a Lloegr, amcangyfrifir bod **1.5 miliwn o bobl 16 oed a hŷn** wedi profi stelcio yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.ⁱ



Mae pobl ifanc **16-24 oed yn fwy tebygol o brofi stelcio** nag unrhyw grwpiau oedran eraill.ⁱ



Gall stelcio ymhlith pobl ifanc ddigwydd ar-lein a/neu wyneb yn wyneb, **ond mae pobl ifanc mewn perygl arbennig o ymddygiadau stelcio ar-lein.**



Yn aml, nid yw ymddygiadau stelcio yn cael eu cydnabod gan bobl ifanc a gellir eu normaleiddio, sy'n eu hatal rhag rhoi gwybod amdano a cheisio cymorth.ⁱⁱ



Mae rhai adroddiadau'n dangos bod achosion mwy difrifol yn cael eu hadrodd gan bobl iau, sy'n awgrymu **ymddygiadau mwy difrifol neu ymddygiad sy'n gwaethygu oherwydd oedi wrth roi gwybod.**ⁱⁱⁱ



Gall partneriaid agos, aelodau o'r teulu, ffrindiau, cydnabod, cymdogion, cydweithwyr a dieithriaid stelcio.



Efallai na fydd pobl ifanc yn bwriadu niweidio nac yn meddwl bod eu hymddygiadau'n gyfystyr â stelcio.



Ni ddylid tybio bod stelcio ymhlith pobl ifanc **yn digwydd mewn perthnasoedd rhamantus yn unig.**



Gall stelcio ymhlith pobl ifanc **gynnwys cydnabod a deillio o fwlio.**



Gall pobl ifanc **brofi a chyflawni ymddygiadau stelcio.**

BETH YW STELCIO?

Mae stelcio yn aml yn cael ei bortreadu yn y cyfryngau fel ymgais ramantus barhaus, ond mewn gwirionedd mae'n drosedd gymhleth.

Mae stelcio yn fath o aflonyddu, ond bydd gan y stelciwr obsesiwn â'r unigolyn maen nhw'n ei stelcio, a gall eu hymddygiad digroeso, cyson wneud i'r unigolyn deimlo'n ofidus, yn ofnus, neu'n ofni trais.

Er nad oes diffiniad cyfreithiol yn y DU, cytunir yn gyffredinol mai stelcio yw:



Patrwm o ymddygiad digroeso, sefydlog ac obsesiynol sy'n ymwthiol ac yn achosi ofn o drais neu fraw neu ofid difrifol.

Ymddiriedolaeth Alice Ruggles

Mae dwy adran o Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012 sy'n mynd i'r afael â stelcio: 2A a 4A. Mae Adran 2A yn dosbarthu stelcio fel trosedd ac yn cwmpasu cwrs o ymddygiad (dau ddigwyddiad neu fwy) o aflonyddu y gellir eu disgrifio fel ymddygiad stelcio.

Mae Adran 4A yn ymdrin ag achosion o stelcio sy'n achosi ofn o drais neu fraw neu ofid difrifol. Er nad yw "braw neu ofid difrifol" wedi'i ddiffinio'n gyfreithiol, gall gynnwys ymddygiad sy'n arwain at niwed emosiynol neu seicolegol neu'n gorfodi'r unigolyn i newid ei arferion dyddiol neu ei ffordd o fyw.

ADRODDIR BOD STELCIO YN FRAWYCHUS O GYFFREDIN

Yng Nghymru a Lloegr amcangyfrifir bod **1.5 miliwn o bobl** 16 oed a hŷn wedi profi stelcio yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mawrth 2024.

Cafodd tua **314,000** (21%) eu stelcio gan bartner neu gyn-bartner a chafodd **141,000** (9%) eu stelcio gan aelod o'r teulu. Fodd bynnag, nid yw llawer o achosion yn cael eu hadrodd oherwydd ofn, dryswch, neu gred nad yw'r ymddygiad yn ddigon difrifol i'w adrodd i'r heddlu.

Mae pob rhyw yn profi stelcio; fodd bynnag, yn ôl ymchwil gyfredol, mae menywod yn fwy tebygol o gael eu heffeithio.

Wedi'i ddisgrifio fel trosedd 'arswyd seicolegol',^{iv} mae gan stelcio effeithiau negyddol difrifol a niwed pellgyrhaeddol. Mae ymddygiadau stelcio yn bresennol yn y cyfnod cyn llawer o achosion o lofruddiaeth.^{v, vi}

GALL YMDDYGIADAU STELCIO GYNNWYS Y CANLYNOL, OND HEB FOD YN GYFYNGEDIG IDDYNT:

CORFFOROL

- Dilyn rhywun
- Mynd i gartref neu weithle rhywun heb wahoddiad
- Treulio amser yn rhywle lle bydd rhywun er mwyn eu gweld
- Gwyllo, ysbïo ar rywun, monitro neu dynnu lluniau o rywun
- Gwneud cyswllt bygythiol
- Anfon anrhegion diangen
- Difrodi eiddo

AR-LEIN

- Monitro defnydd rhywun o'r rhynggrwyd, e-bost neu negeseuon eraill
- Ysgrifennu neu bostio am rywun ar-lein heb ganiatâd
- Anfon lluniau rhywiol anwedus heb ganiatâd
- Cael mynediad at e-bost a chyfrifon cyfryngau cymdeithasol rhywun
- Anfon sbam, meddalwedd faleisus neu frysau
- Dwyn hunaniaeth rhywun
- Bygwth rhannu gwybodaeth breifat, ffotograffau, neu gopiâu o negeseuon (a elwir hefyd yn "docsio")
- Ychwanegu meddalwedd olrhain at ddyfeisiau rhywun ^{vii}

SUT MAE STELCIO YN WAHANOL I AFLONYDDU?

Yn aml, gellir camddeall, tanamcangyfrif neu gymysgu stelcio ag aflonyddu.

Gall aflonyddu gynnwys:

Anfon negeseuon testun neu ddelweddau camdriniol

Postio negeseuon camdriniol ar gyfryngau cymdeithasol

Anghydfodau rhwng cymdogion sy'n cynnwys ymddygiad camdriniol neu ddifrod i eiddo

Ymddygiad gwrthgymdeithasol dro ar ôl tro
Gwneud galwadau ffôn diangen neu sarhaus ^{vii}

Mae'n aflonyddu os yw'r ymddygiad digroeso wedi digwydd ddwywaith neu fwy ac yn gwneud i'r unigolyn sy'n profi'r ymddygiad deimlo'n ofidus neu dan fygythiad.

Yn gyfreithiol, mae ymddygiadau'n dod yn stelcio pan fydd elfen o obsesiwn neu obsesiwn sy'n achosi ofn.

Er mai dim ond dau ddigwyddiad neu fwy y mae'r gyfraith yn eu cydnabod fel cwrs ymddygiad ar hyn o bryd, **dylid cymryd unrhyw ymddygiadau digroeso o ddifrif, a'u cofnodi a'u trafod.**

BETH YDYM NI'N EI WYBOD AM STELCIO YMYSG POBL IFANC?

Pobl ifanc 16-19 oed sydd fwyaf tebygol o fod yn ddioddefwyr stelcio, ac yna'r rhai 20-24 oed.

Mae pobl ifanc yn profi amrywiaeth o ymddygiadau sy'n gyson â stelcio, **ond adroddir bod ymddygiadau ar-lein yn arbennig o gyffredin.**

Mae tystiolaeth/ymchwil gyfyngedig yn canolbwyntio ar **ddeall ymwybyddiaeth/canfyddiadau pobl ifanc o stelcio.**

Yn aml, ni chaiff ymddygiadau eu hadrodd, ac ni cheisir cymorth arbenigol.

Mae tystiolaeth/ymchwil gyfyngedig yn canolbwyntio ar y mentrau addysg sydd ar gael i wella dealltwriaeth a rhoi gwybod amdano.

Gall stelcio fod yn estyniad o fwlio a gall ddigwydd y tu allan i berthnasoedd rhamantus.

Mae stelcio bellach wedi'i gynnwys yng nghanllawiau **Addysg Perthnasoedd a Rhyw Llywodraeth y DU (2025)**, sy'n dangos symudiad tuag at gydnabod pwysigrwydd cynyddu dealltwriaeth o stelcio yn benodol. **Mae addysg a chodi ymwybyddiaeth o stelcio yn gyfyngedig yng Nghymru ar hyn o bryd.**

Mae'n debygol iawn y bydd troseddwyr a dioddefwyr yn adnabod ei gilydd, a all fod yn ffactor risg ar gyfer lleihau profiadau.

Gall canfyddiadau pobl ifanc o ofn fod yn wahanol i rai oedolion, gan arwain at lai o ymwybyddiaeth o ymddygiadau sy'n niweidiol neu'n gwaethygu. **Nid yw achosi "ofn"/"trallod" bob amser yn ddangosydd gorau o ymddygiadau stelcio.**

Gall gwendidau croestoriadol a chymhlethdodau perthnasoedd cynnar gynyddu'r risg o stelcio.




PA YMDDYGIADAU STELCIO SYDD FWYAF CYFFREDIN YMYSG POBL IFANC?

Dywedir bod rhai o'r ymddygiadau mwyaf cyffredin ymhlith pobl ifanc yn cynnwys:

- Cyfathrebiadau Di-eisiau drwy negeseuon testun, galwadau ffôn, gadael negeseuon llais, e-byst, cysylltu drwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol
- Cysylltiadau dieisiau
- Gwneud bygythiadau
- Dilyn/ysbio/monitro
- Ymosodiadau corfforol
- Loetran
- Olrhain GPS/gwiliadwriaeth dechnolegol
- Stelcio drwy ddirprwy (defnyddio eraill i gysylltu â/monitro'r dioddefwr, ceisio dod yn ffrindiau â ffrindiau neu deulu'r dioddefwr heb wahoddiad)
- Difrod i eiddo ^{viii, ix}

Rydym hefyd yn gwybod y canlynol:

- Yn ôl y sôn, mae'n gyffredin i bobl ifanc greu cyfrifon cyfryngau cymdeithasol ffug, ond mae angen mwy o ymchwil i gefnogi tystiolaeth anecdotaidd bod pobl ifanc yn defnyddio cyfrifon ffug i ymgysylltu mewn ymddygiadau stelcio, a all amrywio o natur chwilfrydig i niweidiol.
x
- Gall pobl ifanc LHDTCT, pobl ifanc o gefndiroedd lleiafrifol ethnig a phobl ifanc ag anableddau fod mewn mwy o berygl o gael eu stelcio ac o dan-adrodd. Mae angen mwy o waith i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu cynnwys wrth adnabod, cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o stelcio. 6 Delwedd gan bobl ifanc a gymerodd ran yn



Delweddau gan bobl ifanc a gymerodd ran yn ein gweithdai

MEWNWELEDIADAU ALLWEDDOL O BROSIECT STELCIO A PHOBL IFANC YNG NGHYMRU

Cynhaliwyd wyth gweithdy wyneb yn wyneb rhwng mis Mawrth ac Ebrill 2025 ledled Cymru (gogledd, canolbarth, gorllewin a de). Cymerodd 84 o bobl ifanc 16-24 oed ran ar draws chwe lleoliad.

CANFYDDIADAU ALLWEDDOL

Roedd y lefel o ddealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o stelcio yn amrywio ymhlith pobl ifanc, gan amrywio o wybodus iawn i ychydig neu ddim gwybodaeth/ymwybyddiaeth.

Roedd y canfyddiadau'n cynnwys cynrychioliadau o stelcio a oedd yn stereoteip, a allai atal adnabod ymddygiadau mewn lleoliadau cyfarwydd gyda phobl hysbys:

Y gred i raddau helaeth oedd: 'Dynion' neu 'Ddynion Canol Oed' oedd yn gyfrifol am stelcio

Ystyrir bod nodweddion stelicwr yn: 'Arswydus', 'Ffrîc', 'Gwrthgymdeithasol', 'Obsesiynol', 'Drygi', 'Llwgr', 'Ymddygiad rhyfedd'

Credir bod stelcio yn digwydd: 'yn y nos' neu yn y 'tywyllwch', i lawr 'llwybr tywyll', 'gorsaf fysiau' neu 'orsaf drenau'.

CHWILIO AM GYMORTH

Wrth ystyried a fyddent yn siarad â rhywun neu'n cael cymorth pe byddent yn defnyddio neu'n profi ymddygiadau stelcio, nododd 29 o bobl ifanc o 47 o ymatebion naill ai 'anghytuno' neu 'ddim yn siŵr'.

GWYBODAETH AM STELCIO

Cytunodd 39 o bobl ifanc eu bod yn gwybod beth mae 'stelcio' yn ei olygu a beth mae'n ei gynnwys.

Fodd bynnag, 'mwy o addysg am beth yw stelcio, sut i adnabod arwyddion, sut mae'n wahanol i ymddygiadau niweidiol eraill, a chadw'n ddiogel ar-lein' oedd y flaenoriaeth uchaf ar gyfer cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc.

“

Fideos addysgiadol a dealladwy, e.e. yn dangos gwahanol safbwyntiau, sefyllfaoedd, ac ati.

Unigolyn ifanc

“

Sgyrsiau un i un a mwy o waith unigol hirdymor gydag unigolyn ifanc i feithrin perthnasoedd ac ymddiriedaeth.

Unigolyn ifanc



BLAENORIAETHAU UCHAF

1.

Mwy o addysg am beth yw stelcio, sut i adnabod arwyddion, sut mae'n wahanol i ymddygiadau niweidiol eraill, a chadw'n ddiogel ar-lein

2.

Mwy o addysg ynghylch ble a sut i gael cefnogaeth/rhoi gwybod am stelcio

3.

Polisi a llywodraethu: protocolau, prosesau, arbenigwyr cymorth mewn ysgolion a gweithleoedd, cyllid

4.

Mwy o ymwybyddiaeth am berthnasoedd iach, caniatâd, ffiniau a pharch

5.

Sicrhau bod addysg ac ymwybyddiaeth yn hygyrch ac ar gael mewn gwahanol fformatau

6.

Dylanwad rhywedd a disgwyliadau rhywedd ar ymddygiadau a niwed parhaus

7.

Deall y gyfraith a chanlyniadau cyfreithiol stelcio

8.

Mwy o gyfrifoldeb ar gwmnïau technoleg

CYFLAWNI'R BLAENORIAETHAU

Roedd yna ffafriaeth am fformatau ar-lein/ar y we fel fideos, riliau ac ymgyrchoedd cyfryngau cymdeithasol, er bod darparu gwybodaeth a thrafodaethau wyneb yn wyneb hefyd wedi'u hamlygu.

Roedd enghreifftiau o'r math hwn o fformat yn cynnwys:

- Rhyngweithiadau grŵp, a disgwyliad i ysgolion/lleoliadau addysg ddarparu adnoddau a chyfleoedd ar gyfer codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth.

Roedd y cynnwys a'r math o wybodaeth a ofynnwyd amdani yn cynnwys:

- Diffiniadau, mathau o stelcio, cefnogaeth a sut i gasglu tystiolaeth/rhoi gwybod am stelcio
- Profiadau bywyd go iawn goroeswyr, troseddswyr, ac enghreifftiau amrywiol
- Dadansoddi a beirniadu deinameg y berthynas ar deledu/ffilm
- Ymarferion chwalu mythau a gyflwynir gan ddefnyddio iaith hygyrch sy'n berthnasol ac yn ddiddorol

“

Mi ges i weld rhai fideos ymwybyddiaeth yn yr ysgol a gwersi am tua 40 munud a doedd dim sôn amdano wedyn.

Unigolyn ifanc.

“

Rwy'n teimlo y byddai blaenoriaeth uwch i stelcio digidol ac ar-lein yn beth da gan mai dyna lle mae'r rhan fwyaf ohono'n digwydd i bobl ifanc.

Young person

“

Mwy am y gwahaniaeth rhwng bwlio, aflonyddu a stelcio.

Unigolyn ifanc

ADNODDAU A CHEFNOGAETH BELLACH I WEITHWYR PROFFESIYNOL

Mae oedolion a gweithwyr proffesiynol dibynadwy yn chwarae rhan allweddol wrth nodi ac ymdrin ag ymddygiadau stelcio ymhlith pobl ifanc. Mae pobl ifanc ac oedolion yn defnyddio'r gair "stelcio" yn achlysurol yn eu bywydau bob dydd i gyfeirio at ystod o ymddygiadau, fel edrych ar gyfryngau cymdeithasol rhywun a dod ar draws rhywun yn aml, nad ydynt yn niweidiol ond a allai leihau a normaleiddio ymddygiadau gwirioneddol bryderus, obsesiynol a digroeso.

AWGRYMIADAU AR GYFER CEFNOGI RHYWUN:



Mae **Gweithredu yn Erbyn Stelcio** yn darparu awgrymiadau clir ac adnoddau y gellir eu hargraffu ar sut i gefnogi rhywun sy'n cael ei stelcio, a beth allwch chi ei wneud os ydych chi'n meddwl eich bod chi'n cael eich stelcio. (Saesneg)



Mae **ap Hollie Guard** wedi'i gynllunio'n benodol i helpu pobl i deimlo'n fwy diogel, gan gynnwys y rhai sy'n profi stelcio ac ymddygiadau digroeso. (Ap yn Gymraeg)



Mae gan Wasanaeth Eiriolaeth Stelcio Cenedlaethol Paladin **Dîm Pobl Ifanc** ymroddedig. (Saesneg)

SEIBERSTELCIO AC AFLONYDDU:



Mae **Heddlu De Cymru** wedi cynhyrchu canllawiau a chyngor manwl ar amddiffyn rhag seiberstelcio ac aflonyddu ar-lein. (Saesneg)

FIDEOS, PODLEDIADAU A CHYNLLUNIAU GWERSI I DDECHRAU SGYRSIAU:



Mae **Ymddiriedolaeth Alice Ruggles** wedi cynhyrchu cynlluniau gwasanaethau/gwersi, fideos a phodlediadau i gefnogi dealltwriaeth o stelcio. (Fideos yn Gymraeg)



Creodd myfyrwyr cynhyrchu cyfryngau o Brifysgol De Cymru a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd fideos ymwybyddiaeth fel rhan o brosiect **Stelcio a Phobl Ifanc yng Nghymru**. (Fideos yn Gymraeg)



Mae gan Heddlu Swydd Derby fideo o'r enw **"Following"** a gynhyrchwyd ar y cyd â phobl ifanc, gyda'r nod i'w ddefnyddio mewn gwersi i godi ymwybyddiaeth am stelcio. (Saesneg)

- i. Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2024). 'I feel like I am living someone else's life': One in seven people a victim of stalking. ONS.
<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/crimeandjustice/datasets/stalkingfindingsfromthecrimesurveyforenglandandwales>
- ii. Janickyj, M., Blom, N., & Tanczer, L. M. (2025). Online and offline stalking victimisation in the Crime Survey for England and Wales: Its predictors and victim/survivors' views on criminalisation. *The British Journal of Criminology*.
<https://doi.org/10.1093/bjc/azaf064>
- iii. Mayor's Office for Policing and Crime Evidence & Insight. (2024). Stalking in London: A deep dive. Greater London Authority.
- iv. BBC Newsnight. (2022).
<https://www.bbc.co.uk/programmes/p0dcpc76>
- v. Monckton-Smith et al. (2017). *Exploring the Relationship between Stalking and Homicide*.
<https://www.suzylamplugh.org/Handlers/Download.ashx?IDMF=1a6cf4d9-0df5-42be-8b02-4bdbd75fa264>
- vi. Monckton Smith, J. (2020). Intimate Partner Femicide: Using Foucauldian Analysis to Track an Eight Stage Progression to Homicide. *Violence Against Women*, 26(11), 1267-1285.
DOI:10.117/1077801219863876
- vii. Police.uk. (n.d.). What is stalking and harassment?
<https://www.police.uk/advice/advice-and-information/beta-stalking-and-harassment/what-is-stalking-harassment/>
- viii. Barr, E., & Newman, A. (2024). Children and adolescents as perpetrators of stalking: an overview. *Journal of Forensic Practice*, 26(1), 60-72.
<https://doi.org/10.1108/JFP-09-2023-0045>
- ix. Roberts, K., Tolou-Shams, M., & Madera, K. (2016). Adolescent Versus Adult Stalking: A Brief Review. *Journal of Forensic Psychology Practice*, 16(4), 236-252.
<https://doi.org/10.1080/15228932.2016.1192334>
- x. Muir, E. (2023). Meet the digital voyeurs using burner accounts to stalk their exes. *The Independent*.
<https://www.independent.co.uk/life-style/burner-accounts-social-media-ex-b2293708.html>

University of
South Wales
Prifysgol
De Cymru



SOUTH WALES
POLICE
HEDDLU
DE CYMRU